BYWGRAFFIAD ARTIST



Angharad Lyddon

Mezzo-Soprano

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Graddiodd y Mezzo-Soprano Angharad Lyddon o'r Royal Academy of Music yn Llundain lle bu'n astudio gyda Janice Chapman, Audrey Hyland a Glenville Hargreaves ar y Diploma Uwch mewn Opera a chyrsiau gradd B. Mus ac M. A. yn y coleg. Mae'n parhau i astudio gyda Janice Chapman.

Yn ystod ei hamser yn y Royal Academy of Music, perfformiodd **Lucretia** yn *The Rape of Lucretia*, **Baba the Turk** yn *The Rake's Progress*, **Zita** yn *Gianni Schicchi*, **Filipyevna** yn *Eugene Onegin*, **Madame de la Haltière** yn *Cendrillon* a **Polinesso** yn *Ariodante*. Mewn golygfeydd opera mae wedi perfformio y **Prif Ran** yn *Carmen*, **1st Maid** yn *Elektra*, **Nancy** yn *Albert Herring*, **Orfeo** yn *Orfeo ed Euridice*, **Older Woman** yn *Flight* a **Marcellina** yn *Le nozze di Figaro*.

Gwnaeth Angharad ei début proffesiynol gyda English National Opera yn 2015 fel **Kate** yn *Pirates of Penzance* a pherfformiodd y rhan drachefn mewn cynhyrchiad newydd yn 2017. Canodd ran **Daughter of Akhnaten** yn eu hadfywiad o gynhyrchiad Phelim McDermott o *Akhnaten* yn 2019. Mae hefyd wedi dirprwyo **Hermia** yn *A Midsummer Night's Dream,* **Perdita** yn *The Winter's Tale* a **Schoolboy, Dresser** a **Waiter** yn *Lulu* i'r cwmni.

Mae ei rolau operatig eraill yn cynnwys **Olga** yn *Eugene Onegin* yng Ng?yl Ryngwladol Buxton a **Flosshilde** yn *Das Rheingold* yng Ng?yl Grimebron yn 2019, **Hansel** ym Mhrosiect Addysg Iford Arts 2018, *Gingerbread,* **Suzuki** yn *Madama Butterfly* i Salon Opera, Llundain, **Julia Bertram** yn *Mansfield Park* gyda The Grange Festival, **Cherubino** yn *The Marriage of Figaro* i Clonter Opera a **Dritte Dame** yn *Die Zauberflöte* at the Åbo Svenska Theater yn y Ffindir. Roedd hi'n Jerwood Young Artist gyda Glyndebourne yn 2013 ac yn 2016, canodd ran **Woodpecker** yn *Cunning Little Vixen* a dirprwyo **Hermia** iddynt. Mae hi hefyd wedi dirprwyo rhannau **Polinesso** yn *Ariodante* ac **Alto** yn *Trauernacht* - perfformiad llwyfan yn seiliedig ar gantata cysegredig J. S. Bach – i'r Festival d'Aix en Provence.

Mae Angharad yn Artist Samling ac mae ei huchafbwyntiau cyngerdd yn cynnwys perfformiadau yn y Wigmore Hall, *The Faun and the Shepherdess* a *Requiem Canticles* Stravinsky gyda'r London Philharmonic Orchestra dan arweiniad Vladimir Jurowski yn y Royal Festival Hall, *Cantatas* Bach gyda Sir John Eliot Gardiner a *Meseia* Handel yn y Royal Albert Hall. Mae ei hymrwymiadau cyngerdd diweddar yn cynnwys datganiadau yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd a G?yl Gerdd y Bontfaen, rhannau **Marta** a **Pantalis** mewn perfformiad cyngerdd o *Mefistofele* gan Boito i'r Chelsea Opera Group yn y Southbank Centre, taith o *Elijah* Mendelssohn yng Nghaerdydd, T? Ddewi a Berlin, *Mahler 2* gyda Cherddrofa Symffoni Horsham, cyngerdd i ddathlu 250 mlwyddiant geni Beethoven gyda Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC a chyngerdd G?yl Ddewi gyda BBC NOW.

Cyrhaeddodd Angharad Rownd Derfynol y Wobr Datganiad yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2019 lle roedd hi'n cynrychioli Cymru.

Mae ei llwyddiannau eraill mewn cystadleuthau yn cynnwys canu yn rownd gyn-derfynol Cystadleuaeth Ganu Ryngwladol Wigmore Hall, yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Llais Ryngwladol y Dyfodol yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, y drydedd wobr yn y Das Lied International Song Competition 2015 a lle yn rownd derfynol cystadleuaeth Maureen Leharne, Wigmore Hall.

Mae ei hymrwymiadau diweddar yn cynnwys **Hippolyta** yn *A Midsummer Night's Dream* a **Musica** yn *Manon Lescaut* i The Grange Festival ac **Olga** yn *Eugene Onegin* i West Green House Opera.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.